# CRYNODEB O ARFARNIAD A CHYNLLUN DATBLYGU YSGOL BETWS YN RHOS

Rydym yn adolygu'n gyson ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Betws yn Rhos. Trwy'r broses o hunan-arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.

## EIN CRYFDERAU

### Arweinyddiaeth

- Mae gweledigaeth glir yr ysgol wedi'i ei chreu gyda chyfraniad holl ran ddeiliad.
- Mae fframwaith hunan arfarnu rheolaidd mewn lle sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn ran annatod o fywyd yr ysgol.
- Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgol ac mae perthynas dda o gydweithio ar draws yr ysgol.

### Cwricwlwm

- Mae ein cwricwlwm yn gydlynus er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.
- Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd .
- Mae ein cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.

### Addysgu a dysgu

- Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol wedi eu sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol.
- Mae amgylchedd diogel a symbylus ar draws holl ardaloedd dysgu ble gall fentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.
- Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn unol a'u hoedran a'u gallu.

### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.
- Mae strwythurau a phrosesau cadarn iawn ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle i asesu a chefnogi lles disgyblion.

## LLWYDDIANT BLAENOROL

- Datblygu'r themau trawsgwricilaidd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru
- Cynllunio thema ysgol gyfan wedi'i sefydlu ar gylch dwy flynedd.
- Profiadau dysgu diddorol wedi'i mapio yn y themau Ysgol gyfan.
- Dathlu llwyddiant thema ar ddiwedd tymor drwy rannu'r Gwaith gyda'r rhieni.

- Sefydlu prosesau cofnodi ac asesu cynnydd dysgwyr
- Buddsoddwyd mewn profion PASS a CAT 4 i adnabod cynnydd addysgol a lles disgyblion.
- Adolygwyd y polisi asesu
- Sefydlwyd fframwaith asesu newydd.
- Datblygwyd fframwaith ADY yr ysgol yn gadarn yn unol a'r ddeddf.

- Codi safonau sgiliau llafar Gymraeg y disgyblion.
- Ail ymweld a strategaethau Siarter Iaith
- Gweithredwyd cynlluniau iaith datblygu'r llafar ar draws yr ysgol.
- Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain a chyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau yn yr ysgol ac yn eu cymuned.

## Beth Nesaf?

- Parhau i godi safonau, sicrhau dilyniant a chau y bwlch mewn Iaith a Mathemateg ar draws yr ysgol.
- Parhau i wella gwydnwch, ffitrwydd a lles ein disgyblion.
- Datblygu gweledigaeth gref o ddysgu ac addysgu sy'n cydnabod rôl hanfodol yr amgylchedd dysgu wrth gefnogi dysgu effeithiol.

# BLAENORIAETHAU GWELLA

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau y gallwn i'n disgyblion.

## 1 Datblygu darpariaeth Maes Dysgu a Phrofiad Iaith a llythrennedd i sicrhau dilyniant a chynnydd ar draws yr ysgol

- Byddwn yn datblygu system dracio er mwyn mesur cynnydd iaith POB disgybl yn effeithiol.
- Byddwn yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth effeithiol sy'n codi safonau Iaith a Llythrennedd.
- Creu ymdeimlad o falchder yn y dysgwyr eu bod yn hyderus yn defnyddio'r ddwy iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig

## 2 Parhau i godi safonau, sicrhau dilyniant a cynyddu'r hyder i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg a Rhifedd ar draws yr Ysgol.

- Byddwn yn datblygu system dracio er mwyn mesur cynnydd mathemateg POB disgybl yn effeithiol.
- Byddwn yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth effeithiol sy'n codi safonau rhifedd.
- Rhan fwyaf o'r dysgwyr yn hyderus yn trosglwyddo eu sgiliau rhifedd i wahanol gyd-destunau ar y lefel priodol.

## 3 Parhau i ddatblygu y bartneriaeth rhwng yr Ysgol a'r gymuned ehangach i ddatblygu cydweithio llwyddiannus ar gyfer lles ein disgyblion a'r staff.

- Byddwn yn parhau i wella darpariaeth i gefnogi iechyd meddwl, pryder a hunan hyder ein disgyblion.
- Byddwn yn monitro ac asesu agweddau ein disgyblion a chefnogi lle bo angen.
- Byddwn yn cryfhau'r defnydd o Gymraeg yn y gymuned ehangach

## 4 Cryfhau prosesau hunan arfarnu i sicrhau cynnydd dysgwyr yn y medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

- Byddwn yn sicrhau bod addysgu rhagorol wrth wraidd y cwricwlwm
- Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cwricwlwm i Gymru sy'n cynnwys y camau cynnydd a'r Datganiadau o beth sy'n bwysig.
- Byddwn yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Llythrennedd,Rhifedd a Chymhwysedd digidol ar y lefel her briodol

## Pwy sy'n Cefnogi?

Cydweithio gydag ysgolion Clwstwr Creuddyn
Cynllun Cefnogaeth gan Wasanaeth Cefnogi Ysgolion (GWE)
Cynllun Hyfforddiant a chydweithio rhwng staff